OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 3220 (Cy. 322)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Rhos-goch, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiad a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | 27 *Rhagfyr 2012* |
| *Yn dod i rym* | *7 Ionawr 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Sanclêr – Doc Penfro (yr A477) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Ionawr 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Rhos-goch, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiad a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 7 Ionawr 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o gefnffordd yr A477 yn Rhos-goch yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 4390 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4314 i Dafarn-sbeit hyd at bwynt 479 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiad a Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 3 yn weithredol.

**Atal**

**5.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Rhos-goch, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2004**(3)** a Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Man i'r Dwyrain o Ros-goch, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2011**(4)**, i'r graddau y maent yn gymwys i'r darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2(1), wedi eu hatal drwy hyn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 27 Rhagfyr 2012

**R Morgan**
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 2004/22 (Cy.3).
**(4)** O.S. 2011/2429 (Cy.262).